ATODLEN 1

CYMWYSTERAU CYMRU

RHAN 1

SEFYDLU CYMWYSTERAU CYMRU

Pwyllgorau

17 (1) Caiff Cymwysterau Cymru sefydlu pwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn—
(a) sefydlu is-bwyllgorau;
(b) diddymu is-bwyllgorau a sefydlir ganddo.

(3) Caiff Cymwysterau Cymru hefyd ddiddymu is-bwyllgorau a sefydlir o dan y paragraff hwn.

(4) Caiff Cymwysterau Cymru dalu tâl a lwfansau i unrhyw berson—
(a) sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, ond
(b) nad yw'n aelod o Gymwysterau Cymru neu'n aelod o'i staff.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Atod. 1 para. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

I2 Atod. 1 para. 17 mewn grym ar 6.8.2015 gan O.S. 2015/1591, **ergl. 2(c)**

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 17.